

Buchedd Bangor



**Cadeirlan Deiniol Sant
ym Mangor**
Saint Deiniol's Cathedral
in Bangor

**CYLCHGRAWN
CADEIRLAN DEINIOL SANT
YM MANGOR
THE MAGAZINE OF
ST DEINIOL'S CATHEDRAL
IN BANGOR**



**HAF 2024 | SUMMER 2024
RHAD AC AM DDIM | FREE**

Tu mewn Inside

4 - Y byd a'r betws

Beth sy'n digwydd yn y gadeirlan

5 - Bangor eyes

What's been happening in the cathedral

10 - Paned hefo...

Gweddï a heddwch efo'r Brawd Philip

11 - Getting to know...

Brother Philip talks prayer and peace

16 - Newid byd

17 - Changes outside

22 - Tu ôl i'r llen

Yn y TARDIS y Gadeirlan? Efallai...

23 - Behind the scenes

The cathedral's reverse TARDIS

30 - Pwy i wahodd?

31 - Who will you invite?

38 - Ewch i Enlli

39 - 20,000 saints?

44 - Ein cymdogaeth

Marchnad Bangor a dyn barfog

45 - Our neighbourhood

Bangor market and a bearded man

56 - Dyddiadur

57 - Diary



Croeso Welcome



Croeso i'r rhifyn diweddaraf hwn o Fuchedd Bangor, cylchgrawn Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.

“Buchedd” ydy'r hen enw Cymraeg a roddwyd ar gofnod bywyd rhywun, yn aml yn adrodd straeon seintiau Celtaidd Cymru. Erbyn hyn, yn 2024, mae'n dynodi cofnod o fywyd cymuned ein cadeirlan a'n dinas, gyda myfyrdodau ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd gyda'n gilydd.

Haf ydy'r tymor i fwynhau'r awyr agored – os deil y tywydd – felly, rydyn ni wedi ceisio mentro allan cymiant ag sy bosib ar gyfer y rhifyn hwn. Yn dilyn penodiad David Morris fel esgob cynorthwyol, gan ymgymryd â swyddogaeth “Esgob Enlli”, mae Elin Owen yn ein tywys ar daith i Ynys Enlli, lle mae sefydlydd y gadeirlan, Deiniol Sant, wedi'i gladdu.

Mae'r Archddiacon John Harvey yn cymryd golwg ar sut mae'r eglwys yn gweithredu dull newydd o'r modd y mae hi'n rheoli ei thiroed da'i heiddo ac yn gofyn a ydy Duw'n ein galw ni, bob un ohonon ni, i wneud yr un peth. Ac allan â ni ar y stryd fawr i bori stondinau marchnad wythnosol Bangor, un o'r ychydig prin sy'n dal i fynd yng ngogledd Cymru. Mae'r côr hefyd wedi mentro i'r awyr agored, wrth i ni glywed canu'n dod o ben Tŵr Scott ychydig wythosau'n ôl.

Fel arfer, rydyn ni wedi ceisio adlewyrchu'r oriau lawer sy'n mynd i mewn i fywyd a gwaith Cadeirlan Deiniol Sant. O'r banc bwyd i Camau Bach, o stand gerddoriaeth yr arweinydd cerdd i sgrîn cyfrifiadur yr ail-gantor, mae'r eglwys gadeiriol yn dibynnu ar ymroddiad a doniau sawl person. Diolch i chi i gyd am bopeth rydych chi'n ei wneud.

Welcome to this latest issue of **Buchedd Bangor, the magazine of Saint Deiniol's Cathedral in Bangor.**

"Buchedd" is the old Welsh name given to a record of someone's life, often telling the stories of the Celtic saints of Wales. Now in 2024, it's a record of the life of our cathedral and city community, with spiritual reflections and practical information about our life together.

Summer is a time for getting outdoors – weather permitting – so we've tried to get outside as much as possible for this edition. Bardsey Island seemed an ideal place to visit, following the appointment of David Morris as our assistant bishop; he's taken the title "Bishop of Bardsey". And who better to take us there than Elin Owen, who has researched the island's history at length, and whose grandmother used to live there!

Archdeacon John Harvey looks at how the church is taking a new approach to the way it manages its grounds and property, and asks if God is calling all of us to do the same. And we head outdoors on the high street to browse the stalls of Bangor's weekly market, one of the few left in North Wales. The choir have also ventured outside, and were heard singing on top of the Scott Tower a few weeks ago.

As ever, we've tried to reflect the many hours of time that go into the daily life and work of St Deiniol's cathedral. From the foodbank to Camau Bach, from the conductor's music stand to the succentor's computer screen, the cathedral relies on the dedication and talents of many people. Thank you for all you do.

Y Tîm Golygyddol The Editorial Team

Chris Dearden

Josie Godfrey

Gareth Iwan Jones

Sam Jones

Tracy Jones

Elin Owen

Sara Elin Roberts



Y byd a'r betws

Bangor eyes



Mae'r RNLi yn 200 mlwydd oed eleni, ac fe ddathlwyd yr achlysur gyda chyfres o wasanaethau nodedig, gan gynnwys un yng Nghadeirlan Deiniol Sant ym mis Mai. Roedd y gwasanaeth yn fwyfwy perthnasol gan bod dau o'n clergwyr – yr Archddiacon Robert Townsend (ar y chwith) a'r Canon Philip Barratt, sydd wedi ymddeol – hefyd yn aelodau gweithgar o'r criw bad achub lleol.

The RNLi is 200 years old this year, and celebrated its anniversary with a series of special services, including one in St Deiniol's Cathedral in May. The service was particularly poignant as two of our clergy – Archdeacon Robert Townsend (left) and retired Canon Philip Barratt – are also active members of their local lifeboat crew.



Mae côr y gadeirlan i'w gweld fel arfer yn canu'r gosber islaw Tŵr Scott ond, ar gyfer Dydd Iau'r Dyrchafael eleni, fe wnaethon nhw ddringo i'w ben gan ganu "Ascendit Deus" gan Peter Phillips – mae fideos ar ein sianelau cyfryngau cymdeithasol os nad ydych chi eisoes wedi'u gwyllo.

Fe fu hi'n dymor prysur arall i'r côr, gan ddechrau gyda chyseguru David Morris yn Esgob Enlli, a diweddu gyda gwasanaeth ordeinio Josie Godfrey, ein his-ganon. Roedd y ddau wasanaeth yn cynnwys cerddoriaeth a gyfansoddwyd gan glerc lleyg y gadeirlan, Daniel Pett.

Mae cyfansoddiadau Daniel i'w cael ar recordiad newydd o gerddoriaeth eglwysig Gymraeg a luniodd y côr gyda chwmmi stiwdio Regent Records yng nghanol mis Mehefin. Mae'r recordiad hefyd yn cynnwys cerddoriaeth gan y clerc lleyg, Simon Ogdon a'n cyfarwyddwr cerdd, Joe Cooper, ac fe gaiff ei ryddhau yn ystod y misoedd nesaf.

Mae diwedd mis Mehefin hefyd yn golygu ffarwelio gyda'r ysgolheigion corawl hynny sydd wedi cwblhau eu hastudiaethau ym Mangor – diolch ichi am eich cyfraniadau yn y gadeirlan.



The cathedral choir are normally to be found singing evensong underneath the Scott Tower, but for Ascension Thursday this year they climbed to the top and sang "Ascendit Deus" by Peter Phillips – videos are on our social media channels if you haven't seen them.

It's been another busy term for the choir, starting with the consecration of David Morris as bishop of Bardsey, and ending with the ordination service for Josie Godfrey, our minor canon. Both services featured new music composed by cathedral lay clerk Daniel Pett.

Daniel's compositions feature on a new recording of Welsh-language church music which the choir made with record label Regent Records in mid-June. It also includes music by lay clerk Simon Ogdon and our director of music Joe Cooper, and will be released in a few months' time.

The end of June also means some farewells as we say goodbye to those choral scholars who have completed their studies in Bangor – thank you for all you've done for the cathedral.



Y byd a'r betws Bangor eyes



A oes ganddoch chi unrhyw fagiâu sbâr? Mae banc bwyd y gadeirlan yn paratoui ar gyfer haf prysur arall, lle caiff gwirfoddolwyr baratoui a dosbarthu hyd at 50 o becynnau bwyd pob wythnos. Mae angen mwy o gyfraniadau, nid bwyd yn unig, ond hefyd bagiau cadarn – mae man casglu yng nghefn y gadeirlan. Ein diolch i'r 40 o wirfoddolwyr sy'n cadw'r banc bwyd i redeg yn wythnosol.

Got any spare bags? The cathedral foodbank is preparing for another busy summer, when volunteers can prepare and distribute up to 50 food packs per week. They need more donations – not just food – but also strong durable bags. There's a collection point at the back of the cathedral. Our thanks to the 40 volunteers who keep the foodbank running each week.





Ffarwel i ysgolheigion corawl Seb, Holly, Nemo, Hannah a Sarah a orffennodd yn y côr ddiwedd Mehefin.

Farewell to choral scholars Seb, Holly, Nemo, Hannah and Sarah who finished their time in the choir at the end of June.

Gwelwyd Llewyrch yr Arth - neu oleuadau'r Gogledd (yr Aurora Borealis) yn goleuo'r awyr uwchben Bangor ar ddechrau mis Mai. Roedd yr arddangosfa o oleuadau porffor yn gefndir i Dŵr Skeffington yn arbennig o berthnasol gan iddo ddiwydd ar y noson cyn cysegru David Morris yn esgob arnon ni!

Lluniau y cysegriad: tudalen 36

The Aurora Borealis set the sky above Bangor glowing in early May. The display of purple light descending towards the Skeffington Tower was particularly appropriate as it was the evening before we consecrated David Morris as bishop!

Pictures of the consecration: page 36



Y byd a'r betws

Bangor eyes



Our Tuesday morning baby and toddler group, Camau Bach, has regular visits from Cymraeg i Blant Arfon, bringing puppets, songs and even a parachute to help parents, carers and children to develop their skills in Welsh. The next session is 9 July.

Camau Bach is free to come along, no booking needed. Sessions pause for the summer in mid July, but we look forward to seeing you again at the start of September with a visit from Makaton singers "Arwyddo Can".

Mae ein grŵp babanod a phlant bach bore Mawrth, Camau Bach, yn cael ymweliadau rheolaidd gan Cymraeg i Blant Arfon, gan ddod â phypedau, caneuon a hyd yn oed parasiwt i helpu rhieni, gofalwyr a phlant i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg. Y cyfarfod nesaf yw 9 Gorffennaf.

Mae mynychu Camau Bach yn rhad ac am ddim, does dim angen archebu lle. Mae'r sesiynau'n cael saib ar gyfer yr haf ganol Gorffennaf, ond edrychwn ymlaen at eich gweld eto ddechrau mis Medi gydag ymweliad gan gantorion Makaton "Arwyddo Can".



Mae'r flwyddyn nesaf yn nodi 1,500 mlynedd ers i Deiniol Sant gyrraedd Bangor, gan sefydlu cymuned grefyddol a ddatblygodd yn gadeirlan a dinas Bangor.

Mae grŵp, dan arweiniad yr Archddiacon Robert Townsend, yn gweithio gyda chydweithwyr yn y ddinas a'r brifysgol i gynllunio dathliadau priodol yn ystod y flwyddyn – mwy o fanylion i ddod yn fuan.

Next year marks 1,500 years since St Deiniol arrived in Bangor, and set up the religious community which developed into the cathedral and city of Bangor.

A group led by Archdeacon Robert Townsend is working with colleagues in the city and university to plan suitable celebrations during the year – more details soon.

UCHOD: Sgrin wybodaeth newydd wrth ddrws y gorllewin.

ISOD: Lesley a Josie ar y ddesg stiwardiaid.

TOP: New information screen by the west door

BELOW: Lesley and Josie on midweek stewarding duty



Allwch chi helpu? Rydym yn chwilio am bobl i fod yn stiwardiaid, gan groesawu ymwelwyr i'r gadeirlan yn ystod yr wythnos, a hefyd i helpu gweini lluniaeth ar ôl gwasanaethau.

Mae pwyllgor newydd wedi'i sefydlu i drefnu digwyddiadau a chodi arian ar gyfer yr eglwys gadeiriol – a allech chi helpu gyda'i gwaith hefyd?

Siaradwch â Lesley, Jane neu Gareth ar ôl gwasanaeth ar y Sul i gael gwybod mwy.

Can you help? We're looking for people to be stewards, welcoming visitors to the cathedral during the week, and also to help serve refreshments after services.

A new committee has been set up to organise events and raise money for the cathedral – could you help with its work as well?

Speak to Lesley, Jane or Gareth after a Sunday service to find out more.

LLUNIAU | PHOTOS: Matt Batten, Dave Custance, Cymraeg i Blant Arfon, Yasmin de Rosa, Jonathen Harty, Gareth Iwan Jones, Sam Jones, Elin Owen, RNLI



Paned hefo'r...

Brawd Philip Bee

Ym mhob rhifyn o **Fuchedd Bangor**, rydym yn cwrdd ag aelod o gymuned y Gadeirlan.

Y tro hwn, dewch i ni ddod i nabod Philip Bee. Fe'i gwelir yn aml yn gweini neu'n cynorthwyo ar yr allor, ond mae hefyd yn aelod o urdd grefyddol.

Dyma fo'n sgwrsio gyda **Chris Dearden** am yr hyn mae hynny'n ei olygu...

Ai "Bee" ydy eich cyfenw go iawn – mae'n sowndio'n fwy fel llysenw neu brif lythyren – fel Mel B o'r Spice Girls?

Ia, mae'n gyfenw o'r Hen Saesneg, sy'n dod o swydd Rhydychen ac yn golygu, yn y bôn, "person prysur". Fe ges i fy ngeni yn Grimsby ond fe fues i'n byw yn Swindon am ryw 20 mlynedd, cyn dod i Fangor i astudio llenyddiaeth Saesneg ac ysgrifennu creadigol fel myfyriwr aeddfed.

Ond a ydych chi mor brysur ag y mae'r cyfenw'n ei awgrymu?

Mewn un ystyr, ydw – dwi'n gweithio fel swyddog gweinyddol gyda'r GIG ond, ochr yn ochr â hynny, rwy'n aelod o Oratori'r Bugail Da. Urdd grefyddol ydy hon, er nad ydy aelodau'r urdd yn byw gyda'i gilydd mewn cymunedau.

Ond, mewn ystyr arall, efallai mai na ddylai'r ateb fod – oherwydd fod bod yn rhan o'r urdd yn golygu canfod amser i fod yn weddïgar ac yn llonydd.

Mae hi'n ei olygu i fod yn aelod o'r urdd? Rydych chi'n gwisgo'r hyn sy'n edrych fel abid neu wisg mynach – felly, ai mynach ydych chi, ond heb fynachlog?

Ie, dyna hi'n union, yn y bôn, er mai'r term cywir ydy fy mod i'n "grefyddwr". A bod yn fanwl gywir, mae mynachod yn cilon ôl o'r byd o'u cwmpas, yn aml yn byw mewn mynachdai. Ond mae pobl yn gwybod beth ydy mynach, felly, mae'n ffordd haws i ddisgrifio fy ngalwedigaeth. Gelwir y dilledyn du



Getting to know...

Brother Philip Bee

In each edition of **Buchedd Bangor**, we meet another member of the cathedral community.

This time, we get to know Philip Bee. He's often to be seen serving or assisting at the altar, but he's also a member of a religious order.

He talked to **Chris Dearden** about what that means...





allanol yn scapwla, sy'n debyg mewn rhyw fodd i ffedog fawr sy'n mynd dros eich pen. Mae'n cael ei fendithio fel rhan o'r gwasanaeth sy'n eich croesawu i'r urdd – er, mae gen i ddau ohonyn nhw gan eu bod, fel pob dilledyn arall, angen eu golchi!

Gofynnwch i rywun beth mae mynach yn ei wneud, ac fe fasen nhw'n dychmygu rhywun sy'n treulio llawer o'u hamser mewn gwasanaethau eglwys neu'n gweddn gweddio, gan gymryd hoe ambell waith i fragu rhyw gwrw anghredadwy o gryf! Ond beth mae eich bywyd dyddiol yn ei olygu?

Mae bod yn aelod o Oratori'r Bugail Da yn golygu ymrwymo i adrodd gweddi foreuol a hwyrol bob dydd, ynghyd ag awr o weddi bersonol, i fyw bywyd di-briod, ac i fynychu gwasanaeth cymun pob dydd os yn bosib.

Mae'n ymddangos yn faich go fawr i'w weithio o amgylch swydd, ond mae rhywun yn canfod ffyrdd i gyflawni'r ymrwymadau hynny. Mae awr o weddio yn sowndio'n amser hir ond, yn ymarferol, prin iawn fydda i'n llwyddo cyflawni awr mewn un tro.

Yn aml, gall gweddi olygu bod yn llonydd a gadael i chi'ch hun ailgydio ac ailgysylltu â'r byd o'ch cwrpas, ac algysylltu â Duw. Os gymerwch chi agwedd fel hyn ati, gall llawer o'n gweithredoedd fod yn weddïgar, hyd yn oed cerdded neu drafaelio i'r siopau!



Is your surname really “Bee” – it sounds like it’s a nickname or an initial – like Mel B from the Spice Girls?

Yes, it’s an Old English surname, which comes from Oxfordshire, and basically means “busy person”. I was actually born in Grimsby but lived in Swindon for 20 years or so, eventually coming to Bangor to study English literature and creative writing as a mature student.

But are you as busy as your name suggests?

In one sense, yes – I work as an admin officer in the NHS, but alongside that, I’m a member of the Oratory of the Good Shepherd. It’s a religious order, though the members don’t live together in communities.

But in another sense, maybe the answer should be no – because being in the order means finding time to be prayerful and still.

What exactly does it mean to be a member of the order? You’re wearing what looks like a monk’s habit – so are you basically a monk without a monastery?

That’s basically it, though the correct term is that I’m a “religious”. Strictly speaking, monks withdraw from the world, often living in monasteries. But people know what a monk is, so it’s a good shorthand way to describe my vocation. The black outer garment is called a scapula, which is a bit like a large apron which goes over your head. It gets blessed as part of the service to admit you to the order – though I’ve actually got two of them, simply because like anything else, they need to be washed!

Ask someone what a monk does, and they’d imagine someone who spends a lot of time in church services or at prayer, breaking off occasionally to brew up some unfeasibly strong alcohol! But what does your daily life involve?

Being a member of the Oratory of the Good Shepherd means committing to saying morning and evening prayer each day plus an hour of private prayer, to live a celibate life and to go to a communion service each day if you can.

It sounds quite a lot to fit around a job, but you find ways to live out those commitments. An hour of prayer sounds like a long time, but in practice, I rarely do an hour in one chunk.

Often, prayer can just be about being still and letting yourself reset, reconnect with the world around you, and reconnect with God. If you approach it like that, then most actions can be prayerful, even walking to the shops!

Walking to the shops prayerfully? How do you do that?

I think it’s about headspace and attitude, allowing yourself space to appreciate the beauty of the nature around you, even the architecture around you. Being prayerful can just mean living in the moment.



Cerdded neu deithio i'r siopau'n weddïgar? Sut fedrwch chi wneud hynny?

I mi, mae'n ymwneud â gofod pen ac agwedd, caniatáu lle i chi werthfawrogi hyfrydwch natur o'ch cwmpas, hyd yn oed y bensaerniaeth. Gall bod yn weddïgar olygu dim mwy na byw yn y foment.

Mae'r effeithiau'n reit drawiadol – mae'n helpu gosod yr holl bryderon sy'n chwyrlïo yn eich pen mewn persbectif. Ac mae'n golygu, erbyn ichi gyrraedd y siopau, bod 'na wahaniaeth yn y ffordd rydych chi'n trin pobl – gwên fach glen a all lonni diwrnod rhywun wrth basio. Mae pob person wedi'i greu "ar lun a delw Duw", ond wyddon ni ddim beth sy'n mynd ymlaen yn eu bywydau. Efallai mai'r person wnewch chi gyfarch ydy'r unig berson wnaiff dorri gair â nhw'r diwrnod hwnnw. Mae ein bywydau mor brysur fel mae bod yn weddïgar yn anad dim ydy creu gofod neu le.

A oedd bod yn frawd crefyddol yn rhywbeth y buoch wastad eisïau'i wneud?

Oedd a nagoedd – ddois i ddim yn Gristion nes mod i yn fy 20au cynnar. Roedd llawer yn digwydd yn fy mywyd ar y pryd, fel ag y mae hi'n aml wrth i chi gychwyn ar siwrne bywyd fel oedolyn! Llawer o bethau teuluol a gwaith ac roeddwn jest eisïau eistedd gyda rhywun i sgwrsio am y pethau 'ma, yn hytrach na'u cadw'u gyd y tu fewn i mi. Yna, un diwrnod, fe welais i offeiriad mewn siop yn y dref ac, ar amrant, meddwl i fi fy hun: "Fedra i siarad hefo fo". Fe gymeroddd hi tan ein hail gyfarfyddiad imi feiddio gofyn os oedd hi'n iawn i mi fynd i'r eglwys!

Roeddwn i'n nofydd gyda'r mynachod Benedictaidd yn Abaty Elmore yn Swydd Berkshire pan o'n i yn fy 20au hwyr, ond penderfynu nad dyma'r adeg iawn yn fy mywyd. Ymlaen at 2024, ac mae hi'n teimlo mod i'n medru ateb galwad Duw.

Ar hyn o bryd, dwi'n nofydd yn Oratori'r Bugail Da, ond ym mis Gorffennaf 2024, fe fydda i'n gwneud fy mhroffes gyntaf a dod yn aelod llawn. Mae yna lawer ynghylch y bywyd crefyddol sy'n apelio – ac sydd bob amser wedi apelio, ers y cyfarfod cyntaf ar hap hwnnw gyda'r offeiriad, ac rwy'n edrych ymlaen at ateb galwad Duw ar ran nesaf taith bywyd. **[B]**





The effects are quite startling – it helps put all the worries and concerns that are whirling around your head into perspective. And it means that when you get to the shops, there's in a difference in the way you treat people – a friendly smile that might make someone's day. All humans are made in God's image, but we can never know what's going on in their lives. Maybe the person you say hello to won't talk to anyone else. Our lives are so busy that being prayerful is mainly about creating space.

Was being a religious brother something you'd always wanted to do?

Yes and no – I didn't become a Christian until my early 20s. There was a lot going on in my life at the time, as there often is when you start out on life's journey as an adult! Lots of family and work stuff I just wanted to sit down with someone and talk about, rather than bottling it all up. Then one day, I saw a priest in a shop in town, and suddenly, randomly thought: "I can talk to him". It took until our second meeting before I dared ask if it was OK to go to church!

I was a novice with the Benedictine monks at Elmore Abbey in Berkshire when I was in my late 20s, but decided it wasn't quite the right time in my life. Fast forward to 2024, and it feels as if I can answer God's calling.

I'm currently a novice in the Oratory of the Good Shepherd, but in July 2024, I make my first profession and become a full member. There's lots about the religious life that appeals – and always has done, ever since my first random meeting with a priest, and I'm looking forward to answering God's call on the next bit of life's journey. **[B]**



Newid byd



Mae Cadeirlan Deiniol Sant newydd ennill gwobr Efydd Eco Eglwys am y ffordd rydyn ni'n rheoli ein hadeiladau a'n tiroedd mewn moddco-gyfeillgar. Ond dywed yr Archddiacon John Harvey, mai megis dechrau ydy hyn...

"Felly, beth mae Esgobaeth Bangor yn ei wneud am yr argyfwng hinsawdd?"

Dyna i chi gwestiwn anodd, ond o leiaf mae hynny'n well na wynebu'r cwestiwn gafwyd ychydig flynyddoedd yn ôl: "Pam bod yr eglwys yn gwneud cymaint o stŵr am yr hinsawdd felly? Mae'n newid drwy'r amser!"

Mae hi'n ymddangos ein bod wedi cyrraedd y pwynt lle mae yna gytundeb fod argyfwng hinsawdd ar ein pennau, sy'n effeithio ar bob un person yn y byd a phob rhywogaeth. Pan ddaeth Isabel Losada, yr awdures a'r ymgyrchwraig amgylcheddol, i siarad ag eglwysi yng Nghaerdybi y llynedd, fe aeth yn syth at faterion ymarferol – beth allen ni'i wneud?

Mae gan Gristnogion agwedd arbennig ynglŷn â gwneud pethau yn wyneb y newid yn yr hinsawdd. Rydyn ni'n cymryd o ddifrif y ffaith mai creadigaeth Duw ydy'r byd a'n bod ninnau'n rhan ohono, bod Duw'n caru popeth sy'n bod mor angerddol i'r graddau fel bod Dduw yng Nghrist yn fodlon marw drosto, ac

Changes outside

St Deiniol's Cathedral has just won a Bronze Eco Church award for the way we manage our buildings and grounds in an environmentally friendly way. But Archdeacon John Harvey says this is only the start...

“So, what’s the Diocese of Bangor doing about the climate crisis?”

A tough question, but at least it’s better than being faced with the question of just a few years ago: “Why is the church making a fuss about the climate then? It’s always changing!”

We seem finally to have reached the point where there’s agreement that a climate emergency is upon us, which affects every person in the world and every species. When Isabel Losada, the environmental activist and author, came to talk to churches in Holyhead last year, she went straight to practical matters – what can we do?

Christians have a particular take on doing things in the face of climate change. We take seriously that the world is God’s creation and we are part of it. We take seriously that God loves all that exists so profoundly that Christ was willing to die for it; and his resurrection unleashes new creation, breathed through by God’s Spirit. We share with God in the work and witness to the coming fullness of God’s kingdom.



Tracy ac Aine efo'r wobr Eco Eglwys
Tracy & Aine with the Eco Church award



yn atgyfodiad Iesu, yn datgelu creadigaeth newydd, trwy anadliad Ysbryd Duw. Rydyn ni'n rhannu yng ngwaith a thystiolaeth llawnder dyfodiad teyrnas Dduw.

Mae rhai o'r ffyrdd rydyn ni'n gwneud hynny'n ymwneud â'r mater ymarferol o achub y byd rhag ein ffolineb dynol: trachwant a llygredd, dinistrio a difetha. Fe geisiwn ni ddiddychu'n hunain i ffwrdd o'r dull o fyw o draul difeddwl a chysur hunanol, i ddangos bod ffordd o fyw wahanol yn bosib, ffordd sy'n trin y byd a greodd Duw gyda gofal a pharch a phob bod dynol arall gyda thosturi a thrugaredd.

Fe allwn ni fagu'r gostyngeddwydd i gydnabod bod llawer o bobl eraill wedi sylweddoli hyn yn gynt na ninnau; mae ymgyrchwyr amgylcheddol ers tro byd yn ein gwyllo'n raddol ddal i fyny â'u dirnadaeth, wrth i'r cyfeiriad y bu Duw yn ein harwain yr holl amser wawrio arnon ni.

Felly, beth mae'r esgobaeth yn ei wneud? Am un peth, rydyn ni'n annog ein cynulleidfaoedd i ymwneud â'r Eco Eglwys. Dyma fudiad sy'n cynnig ffyrdd i ni eu defnyddio ar y cyd fel cymunedau eglwys ac yn unigol i gynllunio a gwneud newidiadau.

Mae Cadeirlan Deiniol Sant a'r swyddfa esgobaethol y drws nesaf bellach wedi ennill gwobrau Eco Eglwys efydd – llongyfarchiadau i'r rhai hynny a weithiodd mor galed am y rheini! Mae nifer o eglwysi ledled yr esgobaeth hefyd wedi derbyn gwobrau tebyg, gyda ambell un wedi llwyddo i gyrraedd gwobr arian hyd yn oed.

Mae ennill gwobr Eco Eglwys yn golygu meddwl am bethau megis:

- **A ydyn ni'n cynnwys ein gobeithio a'n pryderon am yr amgylchedd yn addoliad a bywyd yr eglwys?**
- **A ydyn ni'n rheoli tiroedd y Gadeirlan mewn modd sensitif ar gyfer y rhai hynny sydd angen y gofod ac, ar yr un pryd, ar gyfer rhywogaethau'r planhigion a'r anifeiliaid y mae eu ffyniant yn dibynnu arnon ni?**
- **A ydy ein hadeiladau'n lygrywr bach neu fawr?**
- **A ydyn ni'n cysylltu ein dull byw gyda'n ffydd, a'n ffydd â'r gymuned ehangach, trwy ymgylltu ag eraill am fyd gwell?**

Mae yna lawer y gallwn ni'i wneud yn ein cymunedau eglwys ac fel unigolion; yn y tai sy'n gartrefi i ni, gyda'n harian, a'r cysylltiadau sydd ganddon ni. Medrwn inswleiddio i arbed ynni, newid i gyflenwr ynni gwyrdd go iawn fel bo'r ynni a ddefnyddiwn yn garbon niwtral. Medrwn osod ein cynilion lle caen nhw'u defnyddio at well'r byd yn hytrach na'i ddirywio trwy fuddosddi mewn tanwydd ffosil – a dim ond megis dechrau ydy hynny! Mae'r esgobaeth yn edrych ar y rhain i gyd a mwy am ffyrdd i ddelio â'r nifer sylweddol o adeiladau a chartrefi a buddsoddiadau sydd yn ein meddiant.

Mae yna bethau eraill y gallwn ni'u gwneud. Mae'r Cyfrif Natur yr Eglwysi'n digwydd ym mis Mehefin yn flynyddol, yn ein hannog





But how do we put that into practice? We can do our bit in saving the world from our human folly of greed, pollution and destruction. We can wean ourselves away from a lifestyle of thoughtless consumption and selfish comfort, to show that a different way of living is possible; a way which treats God's created world with care and reverence and which treats all other humans with compassion and mercy.

We can have the humility to acknowledge that many others have realised this quicker than we have; long-standing environmental campaigners are watching us catch up with their insights, as it dawns on us where God has been leading us all this time.

So, what's the diocese doing? For one thing, we're encouraging all our congregations to get involved with Eco Church. This is an organisation which gives us simple and effective tools for us to use together as church communities and individually to plan and make changes.

St Deiniol's Cathedral and the diocesan office next door have now gained their bronze Eco Church awards – congratulations to those who have worked hard for those! A number of churches around the diocese also have theirs, and a few have achieved silver awards too.



ni i gofnodi'r rhywogaethau a welwn yn ein mynwentydd. Gall ein heglwysi ddathlu Tymor Creadigaeth yn y bedair wythnos sy'n arwain at ŵyl y cynhaeaf. Rydym ni'n annog unrhyw un sy'n ymwneud â pharatoi addoliad, pregethau neu weithgareddau plant i gynnwys materion amgylcheddol yn eu gwaith.

Ac yn mis Tachwedd, mae'r archesgob wedi trefnu Uwchgynhadledd Adfer Afonydd Cymru, a fydd yn dwyn ynghyd nifer digyffelyb o gyfranogwyr o bob cwr o gymdeithas i geisio mynd i'r afael â chyflwr difrifol ein dyfrffyrdd yng Nghymru. Hyd yn oed os nad ydych chi'n trefnu gwasanaethau eglwys, yn helpu gyda'n gwaith mewn ysgolion nac yn cynnal ein mynwentydd, gallwch helpu trwy ein cefnogi drwy weddi.

Fodd bynnag, dydy hi ddim yn anodd dod i'r casgliad y byddai'r holl weithredoedd a ymgymerir gan unigolion yn ddim mwy na diferyn bach mewn môr llygredig o'i gymharu â'r hyn mae corfforaethau a diwydiannau rhyngwladol a chenhedloedd yn ei wneud. Mae llawer o bobl – yn enwedig ymysg yr ieuencid – wedi nodi eu bod yn dioddef "eco-bryder", sef yr ofn nad oes gan fusnesau mawr a gwleidyddion yr ewyllys nac yn cymryd y camau angenrheidiol i ddadwneud y newid yn yr hinsawdd.

Felly, mae'r etholiad cyffredinol ym mis Gorffennaf o bwys mawr. Mae gofyn i bob un ohonom ni graffu ar bob ymgeisydd a manifesto. Mae gofyn i ni ddal gwleidyddion at eu haddewidion a mynnu gweithredu a fydd yn lliniaru effeithiau'r codiad mewn tymheredd cyfartalog, difodiant cynefinoedd a cholli bioamrywiaeth.

Dyma greadigaeth Duw, a dyfodol ein plant a phlant ein plant sydd yn y fantol, ac yn ein dwylo ni. Ac mae'r dwylo hyn wedi'u hatgyfnerthu trwy Ysbryd y Crist byw. **[B]**



Getting an Eco Church award means thinking of things like:

- **Do we include our hopes and concerns for the environment in our church worship and life?**
- **Do we manage the cathedral grounds sensitively for those who need space here and at the same time for the plant and animal species on which our flourishing depends?**
- **Are our buildings small or large polluters?**
- **Are we connecting our lifestyle to our faith, and our faith to the wider community, in engagement with others for a better world?**

There's a lot we can do in our church communities and as individuals; in our homes, with our money, and our connections. We can insulate to save energy, change to a properly green energy supplier so the energy we consume is carbon neutral. We can put our savings where they'll be used to improve the world and not degrade it with investments in fossil fuels – and that's just for starters! The diocese is looking at all these and more for how we handle our considerable number of buildings, homes and investments.

There are other things we can do. The Churches Count on Nature takes place in June every year, and encourages us to record the species we find in our churchyards. Our churches can celebrate the season of creation in the four weeks running up to harvest festival. We're encouraging anyone involved with preparing worship, sermons or children's activities to include environmental matters in their work.

And in November, the archbishop has organised the Restoring Welsh Rivers Summit, which will draw together an unprecedented number of interested parties from across society to address the serious state of waterways in Wales. Even if you don't organise church services, help with our work in schools or maintain churchyards, you can help by supporting us in prayer.

However, it's not hard to conclude that all actions taken by individuals are like a drop in the acidifying ocean compared to what multi-national corporations and industries and nations do. Many people – particularly young people – have reported "eco-anxiety", or concern that in big business and politics the necessary will and action to mitigate climate change is lacking.

So the July general election matters. Each of us needs to scrutinise every candidate and manifesto. We need to hold politicians to their manifesto pledges and demand the actions which will mitigate the effects of rising average temperatures, habitat destruction and biodiversity loss.

It's God's creation, and our own descendants' future, which is in our hands. And these hands are empowered by the Spirit of the living Christ. **[B]**





Tu ôl i'r llen

Behind the scenes

Efallai eich bod yn mynychu Cadeirlan Deiniol Sant sawl gwaith yr wythnos, neu'n ymweld am y tro cyntaf, mae'n debygol fod yna rai mannau yn ac o amgylch yr adeilad na fuoch chi yn ddyn nhw erioed.

Yn y rhifyn hwn, mae **Chris Dearden** yn canfod ei hun wedi'i amgylchynu gan gorfflenni, ciboria a chasulau...

Whether you're in St Deiniol's Cathedral several times a week, or are visiting for the first time, there are probably places in and around the building that you've never been.

In this edition **Chris Dearden** finds himself surrounded by corporals, ciboria and chasubles...



“Awgrymodd rhywun rhywbryd fod yr ystafell hon yn ymdebygu i fersiwn groes o’r TARDIS – mae’n ymddangos yn anferth o’r tu mewn on mae ‘na adegau lle does prin le i symud!”

Mae’r Canon Tracy Jones newydd ddatgloi drws mawr trwm y gysegrfa.

“Y gysegrfa ydy’r lle y cedwir pethau fel y llestri cymun, canhwylbrennau a thuser yr arogldarth cyn eu paratoi ar gyfer gwasanaethau”, meddai Tracy.

“Ond mae’r hyn a elwir ganddon ni yn gysegrfa hefyd yn cael ei defnyddio fel festri – yr ardal lle mae offeiriaid a gweinwyr yn ymwisgo.

“Felly, ar fore Sul, mae yna lawer yn digwydd yma, a chyda deg neu fwy ar yr allor, mae yna lawer o bobl hefyd. Bryd hyny, mae’r ystafell yn ymddangos mor fach!”

Rydyn ni yng nghornel bella’r Gadeirlan, mewn estyniad carreg i’r prif adeilad. Yno, mae cartref y côr i fyny’r grisiau a’r gysegrfa lawr llawr. Cwblhawyd yr adeilad presennol ym 1879, er y bu capel a hyd yn oed eglwys ar y safle yn y gorffennol.

Mae dwy sêff enfawr hefyd yn y gysegrfa, sy’n ymddangos eu bod hwythau hefyd yn dyddio’n ôl i 1879. Gwell peidio â datgelu yr union weithdrefnau diogelwch sy’n bodoli i’w hagog, digon ydy dweud eu bod yn helaeth iawn...

Cyn gynted ag ydyn ni i mewn, fe’m hatgoffir am linell o hen gân Clwb Pêl-droed Lerpwl: ‘they’ve got more silver than Buckingham Palace’.

“Mae rhai o lestri’r cymun sy yma yn eithaf hanesyddol”, meddai Tracy. “Os byddwch yn cymryd y bara yn ystod y cymun ar foreau Sul, fe fydd fel arfer yn cael ei weini ar blât arian a luniwyd 350 o flynyddoedd yn ôl. Fe wnaed y llestri cymun hynny ym 1777-8 ar gyfer yr esgob John Moore, a aeth yn ei flaen i fod yn Archesgob Caergaint.

“Ond mae hefyd set i’w chael sy’n hynach fyth ac a ddaw allan o dro i dro, sef un a wnaed ym 1637-8 ar gyfer yr Esgob William Roberts. Maen nhw’u gyd yn unigryw, wedi’u hysgythru gyda marciau amrywiol wneuthurwyr ac arfbeisiau.

“Dydy hi ddim wir yn croesi’ch meddwl bod y gwrthrych yn eich llaw wrth weini’r cymun wedi’i lunio pan oedd Siarl II ar orsedd Lloegr.

“Mae i’r ddwy set gareglau neu gwpanau mawr dwfn, er mai eu defnyddio nhw ar gyfer waffers y cymun ydyn ni bellach, yn hytrach na’r gwin – gweinir y gwin o gwpan cymun, y bara o giboriwm.”





“Someone once suggested that this room is a reverse version of the TARDIS – it looks huge inside, but there are times when there’s hardly space to move!”

Canon Tracy Jones has just unlocked the heavy wooden door of the sacristy.

“The sacristy is where things like communion plate, candlesticks and incense thurible are kept and prepared for services”, says Tracy.

“But what we call the sacristy is also used as a vestry – the area where priests and servers get robed.

“So, on a Sunday morning, there’s a lot going on in here, and with ten or more at the altar, there’s also a lot of people. The room suddenly feels tiny!”

We’re at the far corner of the cathedral, in a stone-built extension to the main building. It houses the choir room upstairs and the sacristy downstairs. The present building was finished in 1879, though there’s been a chapel and even a church court on the site in the past.

The sacristy also has two huge safes, which look as if they also date from 1879. It may be best not to say exactly what the security procedures are for getting into them, other than that they’re quite extensive...

Once we’re inside, I’m reminded of a line from an old Liverpool Football Club song: ‘they’ve got more silver than Buckingham Palace’.

“Some of the communion plate here is quite historic”, Tracy says. “If you have the bread at communion on Sunday morning, it will usually come from a silver gilt chalice made almost 350 years ago. That communion service was made in 1777-8 for bishop John Moore, who went on to be Archbishop of Canterbury.



Felly, sut mae'r holl bethau hyn yn gweithio ar yr allor?

"Rydyn ni'n gosod sgwaryn o liain wedi'i hemio ar ganol yr allor, yr hyn a elwir yn gorfflen. Mae'r enw'n dod o'r gair Lladin, 'corpus', sef corff, gan mai dyma lle fydd corff Crist.

"Mae sawl rheol ynghlwm â'r corfflen – dim ond offeiriad sy'n cael ei chyffwrdd, er enghraifft. Ond, yn y bôn, mae popeth yn ymwneud â dangos parchedigaeth tuag at y cysegru. Fel Cristnogion, fe gredwn ninnau ein bod yn dathlu'r cymun oherwydd i Iesu ofyn inni wneud hynny, a bod Iesu'n bresennol mewn rhyw fodd."

Mae cypyrddau, drôrs a bocsys yn llenwi cryn dipyn o'r gysegrfa, yn llawn o'r gwahanol eitemau a wisgir gan bobl wrth yr allor. Mae urddwisgoedd y cymun i gyd wedi'u lliwio'n wahanol ar gyfer adegau neilltuol o'r flwyddyn.

"Mae'r tri pherson wrth yr allor yn ystod Y Grawys a'r Adfent yn gwisgo porffor, gwyn ydy'r lliw adeg tymor y Nadolig a'r Pasg, gwyrdd a welir ar adegau cyffredinol a choch ydy'r lliw ar gyfer y Pentecost ac ar ddiwrnodau'r merthyron", meddai Tracy, wrth iddi agor bocs arall eto fyth.

"Ac yna fe geir du a gyfer angladdau ac offerennau'r meirw, a phinc lliw rhosyn ar gyfer y Suliau yng nghanol yr Adfent a'r Grawys.

Dwi'n dechrau ymglyfarwyddo â chlywed enwau newydd am bethau erbyn hyn, ac mae mwy i ddod.

"Mae'r offeiriad yn y canol yn gwisgo casul. Mae'r diacon i'r dde ohonyn nhw (ochr y brifysgol wrth ichi edrych ar yr allor) yn gwisgo dalmatig tra bo'r is-ddiacon ar yr ochr arall yn gwisgo tiwnigl."

Wedyn fe geir y mozetta, sef clogyn byr o liw pinc-porffor, y gwelir canoniaid yn eu gwisgo ar ben beth bynnag arall maen nhw'n ei wisgo, a côb, sef math o glogyn mawr sy'n mynd dros bopeth arall.

"Mae ganddon ni nifer fawr o gobau –rhan o'r gwaith o fod yn gadeirlan ydy cynnal gwasanaethau mawr, ac fe allech chi'n ddigon hawdd ganfod saith neu wyth o bobl i gyd yn gwisgo'r dillad 'ma," meddai Canon Tracy.

Mae rhywun yn sylweddoli'n ddigon buan pam yn union ei bod hi'n medru bod yn brysur iawn yn y fan hyn. Efallai y base hi'n well petai'r gysegrfa yn TARDIS – dwi'm yn amau nad oes gan rai o'r eitemau sydd ynghadw yma ddigon o hanesion difyr i'w hadrodd o'r gorffennol... **[B]**







Hen lun o 1906 | Old photo from 1906

"The Church Plate of the Diocese of Bangor", E Alfred Jones



"But there's also an even older set which comes out from time to time, which was made in 1637-8 for Bishop William Roberts. They're all unique, engraved with various makers marks and coats of arms.

"It doesn't really cross your mind that the thing you're holding while giving out communion was made while Charles II was on the throne.

"Both sets have two large deep chalices, though we actually use them for communion wafers nowadays rather than wine – the wine is served from a chalice, the bread from a ciborium."

So how does all this stuff work on the altar?

"We put a square of hemmed linen in the middle of the altar, called a corporal. The name comes from the Latin word 'corpus' for body, because that's where the body of Christ will be.

"There are quite a lot of rules surrounding the corporal – only a priest is supposed to touch it for example. But it's basically all about approaching the consecration with some reverence. As Christians, we believe that we're celebrating communion because Jesus asked us to, and that Jesus is present in some way."

Much of the sacristy is taken up with cupboards, drawers and boxes for different things that people wear at the altar. The communion vestments are all colour coded for different times of the year.

"The three people at the altar wear purple in Lent and Advent, white in the seasons of Christmas and Easter, green in ordinary time and red for Pentecost and on the feast days of martyrs", says Tracy, opening yet another box.

"And then there's black for funerals and requiems, and rose pink for the Sundays in the middle of Advent and Lent.

I'm getting used to hearing new names for things by now, and there's more to come.

"The priest in the middle wears a chasuble. The deacon on their right (university-side of the cathedral as you look at the altar) wears a dalmatic, and the sub-deacon on the other side wears a tunicle."

Then there's a mozetta, the pinky-purple thing that cathedral canons wear over the top of whatever else they're wearing, and a cope, which is basically a big cape that goes over the top of other things.

"We have large numbers of copes – part of the core purpose of a cathedral is to host big services, and you can end up with seven or eight people all wearing them," Canon Tracy adds.

It suddenly becomes clear just why it can get very busy in here. Maybe it would be good if the sacristy was a TARDIS – I suspect some of the stuff in here would have plenty of tales to tell from the past... **[B]**



Pwy i wahodd?

Yn Efengyl Luc, adroddai Iesu **ddameg y wledd fawr** (Luc 14:15-24).

Ond dydy'r rhai a wahoddwyd ddim eisiau dod, felly mae'r trefnydd yn estyn allan i'r rhai hynny sydd ar gyrion cymdeithas ac yn eu gwahodd nhw yn eu lle.

Fe gawson ni bregeth ar hyn gan ein his-ganon, **Josie Godfrey**, yn myfyrio ar wahoddiadau, esgusodion a theilyngdod...

Fe dreuliais i gryn amser yn trefnu'r gwahoddiadau i'm hordeiniad. Roeddwn i am i bawb wybod bod croeso iddyn nhw, ond ddim am i unrhyw un deimlo'n euog os nad oeddedn nhw'n gallu dod. Dyma fi'n anfon y gwahoddiadau ac, wrth gwrs, dechreuodd yr ymddiheuriadau a'r esgusodion ddod i mewn. Mae yna deimlad o siom pan fod pobl yn gwrthod gwahoddiad, hyd yn oed, yn achos fy ngwesteion i, os oedd yr ymddiheuriadau'n ddiffuant ac am resymau digon dilys.

Ond dydy'r cymeriadau yn y ddameg hon ddim yn ddidwyll gyda'u hymddiheuriadau. Maen nhw'n rhoi tri



Who will you invite?

In Luke's gospel, Jesus tells the **parable of the great banquet** (Luke 14:15-24).

But the invited guests don't want to come, so the organiser reaches out to those on the margins of society and invites them instead.

Our minor canon, **Josie Godfrey** preached this sermon reflecting on invitations, excuses and worthiness...



I spent lots of time planning the invitations to my ordination. Wanting everyone to know that they are welcome, but not wanting anyone to feel guilty for not being able to come. I sent off my invitations, and of course the apologies and excuses started coming in. It can feel hurtful when people reject an invitation; even in the case of my guests, with the most sincere apologies and the best of reasons.

But the characters in this parable do not give sincere apologies. They



esgus, tri pheth sy'n flaenoriaeth iddyn nhw dros y wledd:

- **Eiddo: dwi newydd brynu darn o dir**
- **Gwaith: mae'n rhaid imi weithio fy ychen newydd**
- **Perthynas: dwi newydd briodi.**

Faint o weithiau mae'r math yma o esgusodion wedi'ch rhwystro rhag dod i'r eglwys? Rhag helpu rhywun mewn angen? Rhag treulio amser gyda Duw mewn gweddi?

Rydym ni byth a hefyd yn oedi, â'n bryd ni a'n pryderon ar bethau'r byd – colli gwasanaeth er mwyn paratoi cinio Sul, methu'r gosber gan inni aros yn hwyr yn y gwaith, mynd dyddiau lawer heb hyd yn oed dreulio munud yn sgwrsio gyda Duw, oherwydd ein bod wedi'n llethu gan bwysau ein bywydau prysur, mor brysur fel nad oes ganddon ni mo'r amser i ystyried y gallasai ein bywydau, efallai, fod yn llai o dreth, petawn ni'n oedi a chaniatáu lle i Dduw.

Pan wrthododd y gwahoddedigion y gwahoddiadau, anfonir y gwas allan i ddwyn y tlawd, yr anabl, y dall i mewn. Y bobl hynny, o bosib, sy'n cael eu henwi o dro i dro yn ein gweddiâu rheolaidd.

Ac eto, mae lle i ragor, ac fe anfonir y gwas allan drachefn, gyda'r siars i fynd "allan o'r ddinas, i'r ffyrdd a'r lonydd yng nghefn gwlad. Perswadia'r bobl sydd yno i ddod. Dw i eisiau i'r tŷ fod yn llawn." Gorchmynnir i'r gwas, nid i ofyn yn unig, ond i gymell y bobl hyn i ddod.

Dyma ydy'r bobl hynny sydd dan gymaint o ormes fel nad oes ganddyn nhw unrhyw un i ymladd drostyn nhw. Dyma ydy pobl y cysgodion, y rhai sy'n syrthio i'r rhigolau, y straeon sydd byth yn cyrraedd y newyddion. Mae'n rhaid cymell y bobl hyn i ddod i mewn, oherwydd eu bod wedi pellhau oddi wrthon ni, wedi crwydro mor bell fel eu bod yn credu na fyddai yna byth groeso iddyn nhw, nad ydyn nhw'n deilwng i dderbyn maddeuant.

Mae ein cred ni mewn Duw cariad a maddeuant. Does yna 'run person ar wyneb y ddaear hon nad ydy Duw'n eu caru, a does yna'r un person na ellir maddau iddyn nhw.

Dydy hi ddim yn ddigon cynnig cariad radical a lletygarwch oddi fewn i furiau ysblennydd ein cadeirlan, os nad awn ni allan a ddod â'r bobl hynny i mewn.

Un tro, fe drefnodd Stephen Hawking barti. Fe fu'n paratoi addurniadau, bwyd a diod. Cyrhaeddodd y parti, arhosodd ychydig oriau, a phan na ddaeth unrhyw un i'r parti, fe adawodd. Y diwrnod canlynol, fe anfonodd y gwahoddiadau. Arbrawf oedd hon i weld a oedd teithio mewn amser yn bosib – gobaith Hawking oedd y byddai'r gwahoddiadau a'r wybodaeth am yr achlysur yn goroesi am filoedd o flynyddoedd, fel y byddai'r teithwyr amser, petai teithio trwy amser byth yn bosib, yn mynychu'r parti.





Coffi a chymdeithas ar ôl gwasanaeth
Coffee and fellowship after a service

give three excuses, three things that they are prioritising over the banquet:

- **Possessions:** I have purchased some land
- **Work:** I need to try out my new oxen
- **Relationships:** I have just got married.

How many times have these sorts of excuses prevented you from coming to church? From helping someone in need? From spending time with God in prayer?

We constantly procrastinate with worldly things: missing church to cook Sunday lunch; not making it to evensong because we've stayed late at work; going day after day without even spending a minute talking to God, because we're overwhelmed by the pressures of our busy lives... so busy that we don't have time to consider that perhaps our lives could be less overwhelming if we stop to let God in.

When the invited guests reject the invitation, the servant is sent out to bring in poor people, disabled people and blind people. Perhaps those people who get mentioned in our regular prayers.





Ond sut ydyn ni'n gwahodd pobl i'n gwasanaethau, i'n dathliadau? Mae hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol yn cyrraedd cynulleidfa gyfyng. Wrth imi sgwennu hyn, mae'r hysbys a gyfer y Sul hwn wedi cael sylw 82 o weithiau ar Twitter. Mae'r union un hysbys ar Instagram wedi'i weld gan 58 o bobl – mae 100% o'r bobl hynny eisoes yn dilyn cyfrif y gadeirlan. Rydym ni, yn llythrennol, yn pregethu i'r cadwedig.

Efallai fod gwers i'w dysgu gan glychau'r eglwys. Cyn y Diwygiad Protestannaidd, fe fyddai clychau'n cael eu crogi ar echel, gyda'u cegau ar i lawr. Roedd y sain yn cael ei gyfeirio tuag at i lawr, i mewn i'r eglwys – fawr o iws o ran galw pobl i addoli. Ond yna, dechreuwyd crogi clychau ar olwynion chwarter, ac yna olwynion hanner ac, yn y diwedd, olwynion llawn, gan allu troi neu siglo mewn cylch llawn. Nid yn unig mae'r clapar yn trawo'r gloch yn galetach nag y byddai petai'r gloch yn cael ei seinio'n bwyllog ond, yn bwysicach, mae'r clapar yn trawo'r gloch pa fo'r geg yn pwyntio am allan, fel bo'r sŵn yn cael ei daflu am allan, i ffwrdd o'r adeilad, yn gwahodd pawb i wneud eu ffordd i'r eglwys.

Mae gofyn i ni anfon y gwahoddiad cyn bo'r parti ar ben. Mae angen inni roi'r gorau i diwnio'r gloch yn dyner ac yn fewnol a dechrau'i seinio hi'n groch ac ar led.

Ym 525, adeiladodd Deiniol ei fangor fel clostir i'w glas – rhyw lun a'r fynachlog – i greu lle o ysbrydolrwydd a diogelwch. Ond bellach, bron i bymtheg can mlynedd yn ddiweddarach, nid myncahlog ydy'n hadeilad ni, ond eglwys gadeiriol. Dydy hi ddim yn unig yn fan i fynd



But still, there is more room, and the servant is sent out again, with the instruction “go out into the roads and lanes, and compel people to come in, so that my house may be filled.” The servant is told not just to ask, but to compel these people to come.

These are those people who are so deeply oppressed that they have no one to fight for them. They are the people who hide in the shadows, who fall through the cracks, the stories that don't make it onto the news. These people must be compelled to come in, because they are so far removed from us, they have strayed so far that they believe that they could never be welcome here, that they are not worthy to be forgiven.

We believe in a God of love and forgiveness. There is not one person in this world who is not loved by God, and there is not one person who cannot be forgiven.

It is not enough to offer radical love and hospitality within the beauty of the cathedral building, if we do not go outside to bring people in.

Stephen Hawking once held a party. He prepared decorations, food, and drinks. He arrived at the party, and waited for a few hours, and when no one turned up, he left. The next day, he sent out the invitations. This was an experiment to see if time travel was possible; Hawking hoped that the invitations and the knowledge of the event would survive for thousands of years, so that if time travel ever did become possible, the time travellers would have attended his party.

But how do we invite people to our services, to our celebrations? Adverts on social media reach a limited audience. As I write, this week's Sunday advert has been seen 82 times on Twitter. The same advert on Instagram has been seen by 58 people - 100% of those people already follow the cathedral account. We are, quite literally, preaching to the converted.

Perhaps our church bells have something to teach us. Before the Reformation, bells were hung on a spindle, with their mouth pointing downwards. The sound was directed downwards, into the church, not much use for calling people to worship. But then bells began to be hung on quarter wheels, then half wheels, and eventually full wheels, swinging in a full circle. Not only does the clapper hit the bell harder than it would if the bell were just being chimed gently, but more importantly the clapper strikes the bell when its mouth is pointing outwards so the sound is projected away from the building, inviting everyone to make their way to the church.

We need to send the invitation before the party is over. We need to stop chiming the bell and start swinging it.

In 525, Deiniol built his bangor as an enclosure for his clas – a sort of monastery – to create a space of spirituality and of safety. But nearly fifteen hundred years on, our building is not a monastery, but



i guddio neu lochesu rhag y byd, ond yn le sy'n ein hanfon ni allan, i'r priffyrdd a'r caeau, i weinidogaethu i holl bobl Dduw, a'u gwahodd i mewn i'w bresenoldeb – gadael i bobl wybod mae dyma'u lle, eu gofod nhw, wrth wraidd calon eu cymuned.

Fel y bu Cristnogion yn ei wneud trwy'r canrifoedd, gyda'n cyfoeth, gyda'n doniau, gyda'n hamser, fe'n gelwir i gynnal y fan hyn fel gofod cysegredig lle mae croeso i bawb, gofal i bawb, cariad i bawb, rhywle lle gall pawb rannu yn rhagfynegiad y wledd nefol, wrth i Grist bresennoli ei hun yng ngwledd yr ewcarist.

Pwy ydych chi'n eu nabod, neu'n gwybod amdanyn nhw, y tu allan i'r waliau yma, y byddai ffydd yn trawsnewid eu bywydau? Pwy ydych chi'n eu nabod, neu'n gwybod amdanyn nhw, sy'n ymddangos mor anobeithiol o golledig? Pwy ydych chi'n eu nabod, neu'n gwybod amdanyn nhw, sydd fwyaf angen cariad Duw? Pwy wnewch chi wahodd? **[B]**

Ein hesgob newydd

Lluniau o gysegriad David Morris ar 11 Mai



a cathedral church. It is not simply a place to hide away from the world, but a place from which we must go out, to minister to all God's people, and to invite them into this space – to let them know that this is their space, at the heart of their community.

Just as Christians have done throughout the centuries, through our wealth, through our talents, through our time, we are called to maintain this as a sacred space in which everyone is welcome, in which everyone is cared for, in which everyone is loved, in which everyone can share in the foreshadowing of the heavenly banquet, as Christ is made present in the eucharistic feast.

Who do you know, outside these walls, whose life could be transformed by faith? Who do you know, who seems so far gone that all hope seems lost? Who do you know, who is most in need of God's love? Who will you invite? **[B]**

Our new bishop

Photos from the consecration of David Morris
on 11 May



Ewch i Enlli

Mae sylfaenydd
cadeirlan Bangor -
Deiniol Sant - wedi ei
gladdu ar Ynys Enlli.

Ac ers mis Mai, mae 'na
Esgob Enlli. Mae ein
hesgob cynorthwyol
newydd, David Morris
wedi mabwysiadu enw'r
ynys sanctaidd yn ei
deitl.

Ond sut brofiad
ydy Enlli? Mae ein
galluogydd y Gymraeg
Elin Owen yn mynd â ni
ar daith bersonol.....

Un peth sydd yn gyffredin i bawb sydd
erioed wedi teithio i Enlli yw croesi'r
Swnt. Mae cerrynt cryf o saith cyfeiriad
yn cyfarfod yma ac mae'r rhain yn ei
gwneud yn anodd cyrraedd yr ynys os
nad yw'r tywydd yn ffafriol.

Enw arall a roddir ar y Swnt yw Ffrydlef
Castwennau neu Cerhynt Castwennau
oherwydd honnir yn ôl traddodiad i long
o eiddo'r Breinin Arthur o'r un enw gael
ei dryllio yma.

Rhodddwyd yr enw Enlli ar yr ynys medd
rhai oherwydd yn syml iawn ei bod "yn
y llif" ond wrth gwrs mae pob ynys yn y
llif! Ond dywedi'r mai'r rhewswm yn yr
achos hwn yw bod y culfor sydd rhwng
yr ynys ar tir mawr yn hynod gynhyrfus
ar llifeiriant yn nodedig o gryf.

Mae rhai ysgolheigion yn ceisio yr
esboniad Ynys Enlli – Ynys Venlli–
Ynys Benlli yn enw i'r ynys, oherwydd
perthynas a Benlli Gawr; ond nid oes neb
newn difrif yn gwybod pa gysylliad a fu
rhyngo ef ar ynys hon.

Deilliai enw Saesneg yr ynys, "Bardsey"
yn ôl pob tebyg o'r iaith Lychlynnaid, ei
ystyr Ynys Barader. Coffau a wna ryw
gadfridog neu bennaeth o Lychlynwr a
feddiannodd yr ynys ac a'i gwnaeth yn ôl
pob tebyg ei brif safle a man i gychwyn
ei gyrchoedd pellach.

Adwaenir hi hefyd yn "Ynys y Saint" ac
mae'n debyg mai dyma y'i gelwid hi gan
fynachod o'r oesoedd canol a ddeuai
yno, ac yn wir mae amryw yn dal i
gyfeirio ati felly hyd heddiw.



20,000 saints?

The founder of Bangor cathedral - St Deiniol - is buried on Bardsey Island.

And since May, there's now a Bishop of Bardsey. Our new assistant bishop, David Morris has taken the island's name for his title.

But what is the place like? Our Welsh language enabler **Elin Owen** takes us on a personal tour...



If there's one thing that links everyone who's ever been to Bardsey, it's the simple act of getting there! From sixth-century saints to 21st-century pilgrims, everyone has to cross the sound. Strong currents from seven directions meet here, making it a difficult crossing if the weather is not favourable.

Another name given to the sound is "Ffrydlef Castwennau" (currents of Castwennau); according to tradition, a ship owned by King Arthur called Castwennau was once wrecked here.

The island's Welsh name – Ynys Enlli – may also be a reference to these strong currents. Some say it means "in the flow", though of course, all islands are in the flow! Other scholars suggest the name comes from the name of a giant called Benlli, though no real known connection has been made between him and the island.



Yn ôl cerdd enwog T Gwynn Jones:

**Mae yno ugain mil o Saint
Ym mraint y môr a'i genlli,
Ac nid oes dim a gyffry hedd
Y bedd ar ynys Enlli.**

Efallai mai gormodiaith yw honni bod ugain mil o seintiau wedi eu claddu ar yr ynys ond yn sicr mae'n ffaith y claddwyd nifer helaeth o wŷr Sanctaidd yno, gyda Cadfan, Dyfrig, Gwrtheyrn a Llawddog yn dybiedig yn eu mysg.

Er hyn ni chrybwyllwyd y swm rhyfeddol o ugain mil tan tua chanol y ddeuddegfed ganrif a hynny yn Llawysgrif Llandaf. Hwn yw'r cyfeiriad llenyddol cyntaf, cynharaf sydd wedi ei gadw am Ynys Enlli, credir bod prif gorff y llyfr wedi ei gofnodi tua 1120.

Daw un o'r cyfeiriadau cynhwysfawr cynharaf am yr ynys o deithlyfr Gerallt Gymro. Cawn arolwg ganddo o'r ynys bron yn Borth Paradwys neu yn Afallon Gristnogol. Nododd mai cymuned o fynachod a elwid "coelibes" nei "colidei" oedd yn preswyllo yno yn 1188 sy'n cyfieithu'n fras i "gyfeillion neu gymdeithion Duw."

I unrhyw un sydd wedi bod yn ddigon ffodus i allu croesi'r Swnt i Enlli rwy'n siŵr y cytunwch gyda mi ei bod yn Ynys wirioneddol arbennig a bod rhyw hud anesboniadwy yn perthyn iddi. Mi fyddwn i'n mynd mor bell a honni ei bod hi yn un o'r llefydd cyfrin lle mae'r ffin rhwng nefoedd a daear yn teimlo'n nes.

Yn bersonol mae gen i gysylltiad arbennig gyda'r Ynys gan i fy Nain gael ei magu yno tan iddi symud i'r tîr mawr i fyw pan oedd hi'n wyth oed. Yn rhyfedd iawn nid ffaith oedd hon yr ymfalchiai o gwbl ynnddi, ac ar hyd ei hoes teimlai rhyw chwithdod a chywilydd (na fedrwn i erioed ei ddirnad) o fod wedi treulio blynyddoedd cyntaf ei hoes yno. Efallai ei bod wedi profi stigma fod trigolion Enlli yn bobl dlawd? Yn hen ffasiwn?

Er mewn difrif y gwrthwyneb oedd yn wir. Roedd y tai yno'n cael eu cysidro'n foethus yn y cyfnod, yn fodern hyd yn oed; ac roedd merched Enlli yn cael eu cysidro ymhlith y rhai mwyaf ffasiynol ym Mhen Llŷn, gan ei bod yn gallu teithio ar gwch i Lerpwl i siopa ac yn gwneud hynny'n eitha rheolaidd.

Rhyfeddwn at ei dawn amheuthun i drin a choginio pob pysgodyn, sgil yn ddiamau a ddaeth o'i chyfnod ar yr ynys yn ffermio a byw ar gynnyrch y tir ar môr. Byddwn yn fel tŷ gron yn swnian arni i ddweud ei hanes ac yn gwirioni gyda'i straeon rhyfeddol am groesi'r Swnt mewn tywydd garw, a stori'r gath yn mynd drosodd i'r môr!

Yn blentyn ifanc felly y cychwynodd fy niddordeb gwirioneddol i yn yr ynys. Er fy mod bellach wedi cael y pleser o groesi yno sawl gwaith cefais brofiad eithriadol yno'r llynedd gan i mi gael mynd i mewn i "Tŷ Nesaf" y tŷ yno lle magwyd Nain (er mai Tŷ Bach oedd ei enw yn y cyfnod hwnnw).





The English name – Bardsey – is probably derived from the Viking language, meaning Barader’s Island. Barader is thought to be a Viking chief who occupied the island, making it his main site and a place to initiate raids on the area.

Medieval monks would probably have known it as “The Isle of the Saints”, and indeed many people still refer to it as such to this day. According to T Gwynn Jones’s famous Welsh-language poem:

**There are twenty thousand Saints
In the privilege of the sea and its gentry,
And there is nothing that touches the peace of
The grave on the Ynys Enlli.**

It may be an exaggeration to say that twenty thousand saints were buried on the island, but it is certainly a well known fact that a vast number of holy men were buried there, with Cadfan, Dyfrig, Gwrtheyrn and Llawddog presumed among them, as well as the cathedral’s founder, Deiniol.

The figure of twenty thousand saints doesn’t actually appear until about the middle of the twelfth century in the Llandaff Manuscript, thought to have been mainly written around 1120.

One of the earliest comprehensive references to the island comes from Gerald of Wales’s travel book. He refers to the island as a



Beth darodd fi fwyaf am y lle oedd ei fod o mae'n debyg fwy neu lai union yr un fath a bron i gant o flynyddoedd yn ôl. Y pantri ar llechen y bu hi'n sôn amdano oedd yn cadw'r llefrith ar menyn yn oer, y lloffydd ar olygfa drwy'r ffenestr, y lloriau carreg. Profiad emosiynol a dweud y lleiaf oedd sefyll yno, a fy mam hefo fi yn dychmygu magwraeth ei mam hi-fy nain i; piti nad ydi waliau'n gallu siarad.

Does na ddim trydan, cyflenwad dŵr na toilet sy'n fflysho yno! Dim wi-fi a phrin yw'r signal ffôn-felly fel y seintiau gynt mae modd profi llonydd a heddwch gwirioneddol yno.

Does dim geiriau ychwaith i lawn fynegi harddwch a hyfrydwch y lle, ac os cechw chi gyfle i fynd ar eich pererindod eich hun yno, da chi ewch! Byddwch fel y bardd T Gwynn Jones oedd am droi ei gefn:

**Ar wegi'r byd
A'm bryd ar Ynys Enlli.**

Cerdyn post Elin o Enlli | Elin's Enlli Postcard



Tŷ fy nain
Nain's old house



"gate to paradise" or a "Christian Avalon." He noted that in 1188 a community of monks lived there called "coelibes" or "colidei" which roughly translates to friends or companions of God. Almost 850 years later, many people still think of Enlli as one of those 'thin' places where the boundary between heaven and earth feels closer.

Personally, I have a special connection with the island as my nain grew up there in the 1920s until she moved to the mainland when she was around eight.

Strangely, this was not a fact she was at all proud of, and all her life she felt some shame and embarrassment at having spent the first few years of her life there. Perhaps she experienced the stigma that Bardsey people were poor and old-fashioned?

Nothing could be further from the truth: the houses there were luxurious for the period, modern even, and Enlli women were among the most fashionable on the Llŷn as they were able to travel by boat to Liverpool to shop, and did so quite regularly!

I marvelled at nain's ability to prepare and cook any type of fish, a skill undoubtedly that came from her time on the island farming and living on the produce of the land and sea.

I would nag her continuously to share some of her memories and I always loved hearing her tales of crossing the sound in bad weather, and the famous story of the cat ending up in the water on the way.

My grandmother's tales were the beginning of my own obsession with the island. So it was particularly poignant last year when I was able to visit Tŷ Nesaf, the home where she grew up (actually called Tŷ Bach back then).

Practically unchanged since she left, all her stories came alive for me: the slate pantry that kept the milk and butter cold; the bedrooms and the view through the window; the stone floors. My mother and I stood – spellbound – transported back to nain's upbringing, willing the stone walls to speak and tell us more.

To this day, there's no mains electricity, water supply or flushing toilet there – no wi-fi and little phone signal. Like the saints before us, it is possible to experience a place of genuine stillness and peace.

But in a way, that's the main attraction. The fact that nothing's changed much since my nain's time there was something which also struck the poet RS Thomas:

**There is no time on this island.
The swinging pendulum of the tide
Has no clock; The Events
Are dateless**


Enlli has been a place of pilgrimage since about the sixth century – at one time three pilgrimages there was considered equal as one to Rome. If you have the opportunity to go on your own pilgrimage there, then do... you won't be disappointed! **[B]**





Ein cymdogaeth Our neighbourhood

Pobol Bangor | Bangor People



Gwerth y byd

To market, to market

Saif Cadeirlan Deiniol Sant ar ganol stryd fawr hiraf Cymru – 1,265m, neu oddeutu milltir, o un pen i'r llall.


Ym **Muchedd Bangor** rydym yn cwrdd â rhai o'r bobl sy'n gweithio i geisio gwneud canol y ddinas yn le ffyniannus.

Y tro hwn, dyma ni'n mentro i'r awyr agored ac ymweld â **marchnad stryd wythnosol** Bangor ar ddyddiau Gwener...

Saint Deiniol's Cathedral stands at the centre of the longest high street in Wales – 1,265m or around a mile long.

In **Buchedd Bangor** we're meeting some of the people who are working to make our city centre a thriving place.

This time, we head outside into Bangor's regular **Friday street market...**





Stella McClure, trefnydd y farchnad

"Does 'na fawr o farchnadoedd stryd ar ôl bellach yn ngogledd Cymru erbyn hyn, sy'n un o'r nodweddion sy'n gwneud marchnad Bangor yn eithaf arbennig. Mae'n waith caled ei chynnal – 'da ni'n effro am 5am er mwyn gosod y stondinau'n barod am 6.30am. Mae 'na gazebos i'w gosod, ac mae'n rhaid sicrhau fod y masnachwyr gyd yn gwybod lle maen nhw'n mynd.

"Fe wnaethon ni gymryd drosodd rhedeg y farchnad yn 2021 – bu seibiant o ddeunau mis oherwydd pandemig Covid, ac roedd y trefnwyr blaenorol eisiau rhoi'r gorau iddi. Mae fy mhartner, Ben, a finnau'n cynnal marchnadoedd artisan ar hyd a lled y gogledd 'ma, felly rodden ni mewn sefyllfa fanteisiol i ymgymryd â'r cyfrifoldeb.

"Prif swyddogaeth y trefnwyr yn y bôn ydy sicrhau fod y masnachwyr yn fodlon eu byd. Os lwyddwch chi i wneud hynny, mi wnawn nhw wneud y gwaith o greu awyrgylch cartrefol. Mae hynny'n bwysig gan ein bod ni'n grediniol y dylai'r farchnad fod yn gonolbwynt y gymuned, yn rhywle lle gall bobl ddod at ei gilydd."

Stella McClure, market organiser

"There aren't many street markets left in North Wales now, which is one of the things that makes Bangor market quite special. Running it is hard work – we're up at 5am to start setting things up from 6.30am. There are gazebos to put in place, and we need to make sure all the traders know where they're going.

"We took over running the market in 2021 – there was an 18 month break because of the Covid pandemic, and the previous organisers wanted to step back. My partner Ben and I run artisan markets around North Wales, so we were well placed to take it on.

"The main job of the organisers is simply to keep the traders happy. If you do that, they'll do the main work of creating a nice atmosphere. That's important because we feel strongly that the market should be a hub of the community, a place where people can congregate."



Simon Mottram, gweithiwr crefftau lledr

"Mae'n amlwg fod 'na ymdeimlad cryf o gymuned yma. A deud y gwir, dyma'r tro cyntaf imi fod ym marchad Bangor. Dwi'm mentro trwy rannu stondin â dau gyfaill, yn gwerthu pysiau a waledi lledr. Ond fedra i ddim coelio faint o bobl sydd wedi dod heibio a deud 'helo'!


"Mae hynny'n golygu llawer i mi. Roeddwn i'n farbwr ym Mhorthaethwy tan yn ddiweddar, ond fe wnes i ddatblygu problemau iechyd sydd heb eto wedi'u datrys. Deudodd y doctor wrtha i am roi'r gorau i drin gwallt yn y fan a'r lle. Dau newid anferth yn fy mywyd ar unwaith – ddim yn beth hawdd i ddelio ag o. Felly, mae gweithio lledr wedi bod yn adferiad, trwy wneud rhywbeth dwi'n caru sydd wrth fy modd.

"Aar adegau fel hyn, rydych chi'n gwerthfawrogi cefnogaeth y rhai hynny o'ch cwnpas, ac mae 'na ddigon o hynny ym marchnad Bangor heddiw."

Gemma Colsmann, "Craftwerky"

"Ni ydy hanner arall y stondin gyda Simon! Dwi'n troi hen recordiau yn glaciau. Ddechreuais i gyda chasgliad hen recordiau feynyl fy ngŵr, Chris – doedd ganddo fo ddim modd i'w chwarae ar y pryd. Roedd o'n ddigon graslon am y peth, ac mae o hyd yn oed yn helpu'u gwerthu nhw ar y stondin.

"Erbyn hyn, dwi wedi rhedeg allan o recordiau y mae yntau'n fodlon eu gwaredu, felly rhaid chwilio am ffynnonellau eraill . Ond mae hynny'n golygu y gall Chris wadu'n llwyr mai fo oedd biau disgiau ABBA a Take That!"





Simon Mottram



Gemma Colsmann - Chris Colsmann

Simon Mottram, artisan leather worker

"There certainly is a strong sense of community here. It's actually my first time on Bangor market. I'm testing the water by sharing a stall with two friends, selling leather purses and wallets. But I can't quite believe the number of people I know who've come up to me to say hello!"


"That means a lot. I was a barber in Menai Bridge until recently, but I developed health problems which still haven't been fully diagnosed. The doctor told me I had to stop cutting hair immediately. Two massive changes in my life at once – not easy to deal with. So leather working has been my way to rebuild, by doing something I love."

"At times like this you appreciate the support of those around you, and I'm getting plenty of that on Bangor market today."

Gemma Colsmann, "Craftwerky"

"We're the other half of the stall with Simon! I turn old records into clocks. I started by using my husband Chris's old vinyl record collection – he had nowhere to play them at the time. He was quite gracious about it, and even helps me sell them on the stall."

"Nowadays I've run out of records that he's willing to part with, so I have to find other sources. But that means Chris can deny that the ABBA and Take That discs have anything to do with him!"





Jed Ward, Mêl Glanddôl


"Y peth gorau ynglŷn â marchnad Bangor ydy eich bod yn cael y cyfle i dreulio diwrnod yn cyfarfod â phobl clên. Mae dod yma yn rhan o fy ymgais i i fyw bywyd normal. Ddois i nôl i Gymru chwe mlynedd wedi gweithio fel swyddog diogelwch mewn eiddo gwyliau moethus o'r enw Villa Alang Alang yn Cannes ar Riviera Ffrainc, a oedd yn golygu gweithio gyda phobl fel y gŵr busnes, Elon Musk, a'r cerddor, Dave Grohl.

"Cartref bellach ydy tyddyn y teulu yn Llanllyfni, lle rydyn ni'n ceisio byw mor gynaliadwy â phosib. Rydyn ni'n cadw gwenyn a geifr, ac mi rydw i'n gwneud cymaint ag sy bosib o'r hyn a werthir ar y sondin, o sebon llaeth gafr i ganhwyllau persawrus, a mêl wrth gwrs.

"Mi rydw i'n berson eithaf crefyddol. Mam oedd yn arfer prynu'r blodau ar gyfer ei heglwys leol, ac fe fasen ni'r plant ddiwedd y dydd yn gorfod cerdded adre gan ei bod hi wedi gwario'r olaf o'i phres gan adael dim ar ôl ar gyfer y bws.

"Mae'n eich atgoffa chi, wrth ichi sgwrsio â phobl ar y farchnad, mai dim ond cipolwg gewch chi o'r hyn sy'n digwydd yn eu bywydau. Mae 'na wastad frwydrau personol na chlywch chi amdany'n nhw. Wethiau dwi'n cael fy hun yn rhoi rhywbeth am ddim wedi cael y teimlad fod rhyw berson neu'i gilydd yn methu fforddio'i brynu.

"Ond hyd yn oed os ydw i'n diweddu'n gostwng y pris, neu'n rhoi pethau am ddim, mae pethau'n gweithio allan yn y pendraw. Efallai bod hynny'n dangos, os wnewch chi drystio Duw, y gwnaiff Ynatu, yn ei dro, edrych ar eich hôl chi". **[B]**



Jed Ward, Glanddol Honey


"The best bit about Bangor market is that you get to spend the day meeting nice people. Coming here is part of my attempt to live a normal life. I came back to Wales six years ago after doing the security for a luxury holiday property called Villa Alang Alang in Cannes on the French Riviera, which meant working with people like the businessman Elon Musk and the musician Dave Grohl.


"Home is now a family-run smallholding near Llanllyfni, where we're trying to live as sustainably as possible. We keep bees and goats, and I make as much as possible of what gets sold on the stall, from goats milk soap to scented candles, and honey of course.

"I'm quite a religious person. My mum used to buy the flowers for her local church, and we'd end up walking home because she'd spent the last of her money and had nothing left for the bus.

"It's a reminder that when you talk to people on the market, you only get a snapshot of what's going on in their lives. There'll always be personal battles you never hear about. I sometimes end up giving stuff away just because I get a feeling that someone can't afford it.


"But even if I end up reducing the price, or giving things away, the bottom line still seems to take care of itself. Maybe it shows that if you trust in God, he will look after you". **[B]**





Ein cymdogaeth
Our neighbourhood

Casgliad Storiel | Storiel collection



Achos rhyfedd y jwg bach brown

The curious case of the little brown jug

Mae **Storiel**, amgueddfa ac oriel sirol Gwynedd, y drws nesaf at y Gadeirlan, yn yr hyn a raferwyd fod yn balas yr esgob.


Ym mhob rhifyn o **Buchedd Bangor**, rydyn ni'n cymryd golwg ar rywbeth o blith y casgliad.

Y tro hwn, dyma ichi hanesyn yn gysylltiedig â jwg fach brown ag wyneb od iddi. Daethpwyd o hyd i'r jwg ar dir y gadeirlan rhyw 150 o flynyddoedd yn ôl, ond mae'n debygol ei bod wedi'i gynhyrchu yn Yr Iseldiroedd. Ond sut y bu i di gyrraedd yma? Dyma **Frances Lynch Llewellyn** o Gyfeillion Storiel yn mynd ati i ymchwilio...

Storiel, the county museum and gallery for Gwynedd is next door to the cathedral in what used to be the bishop's palace.

In each edition of **Buchedd Bangor**, we look at something in its collection.

